# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)07-11

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 1 Mawrth 2011
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes
Llinos Madeley, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC(3)06-11 (Cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 15 Chwefror 2011**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)07-11(p1)**

3.1 Gohiriwyd yr eitem a ganlyn ddydd Mercher 2 Mawrth:

Cynnig i benodi archwilwyr i gyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru (15 munud)

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Cyfnod Pleidleisio yn digwydd cyn 17.00 ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 1 a 2 Mawrth 2011.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y 3 wythnos nesaf - BC(3)07-11(p2)**

3.4 Cytunodd y Llywodraeth i ystyried opsiynau ar gyfer rheoli'r tair trafodaeth Cyfnod 3 ar 22 Mawrth.

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y 3 wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)07-11(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Busnes arall

**(i) Llythyr gan Swyddfa'r Cabinet – Etholiadau Cyffredinol 2015 – BC(3)07-11(p4)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Swyddfa Cabinet y Deyrnas Unedig ynghylch y ffaith bod etholiad Cynulliad Cymru yn cyd-daro ag etholiad Ty'r Cyffredin yn 2015. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod y mater unwaith eto ar ôl cynnal trafodaethau ag arweinwyr y pleidiau.

### 5. Adolygu'r Rheolau Sefydlog

**(i) Papur esboniadol: Adroddiad drafft a drafft terfynol y Rheolau Sefydlog – BC(3)07-11(p5)**

**Adroddiad drafft – BC(3)07-11(p5a)**

**Atodiad 2: Grid newidiadau wedi'u tracio – BC(3)07-11(p5b)**

**Atodiad 4: Rheolau Sefydlog Diwygiedig – BC(3)07-11(p5c)**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes yr adroddiad drafft ar yr Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog a drafft terfynol y Rheolau Sefydlog a chytuno arnynt. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i osod yr adroddiad ar 9 Mawrth a chyflwyno cynnig i'r Cynulliad gytuno arno ar 16 Mawrth.

5.2 Diolchodd y Rheolwyr Busnes i swyddogion y Cynulliad a swyddogion o Lywodraeth Cymru am eu cymorth dros gyfnod yr adolygiad.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**